



Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

Ymgynghoriad ar safon y prawf ar gyfer y penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon mewn cwest

Medi 2026



Llywodraeth y Deyrnas Unedig
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

**Ymgynghoriad ar safon y prawf ar gyfer
y penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon
mewn cwest**

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r
Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Medi 2026



© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents a <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/standard-of-proof-for-the-short-form-inquest-concl/>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn unlawful.killing.consultation@justice.gov.uk

ISBN 978-1-5286-6131-7

E03509196 09/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Cyf. ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

I:	Unrhyw un sydd â diddordeb proffesiynol neu bersonol yn y mater hwn.
Cyfnod:	Rhwng 14 Medi 2026 a 7 Rhagfyr 2026
Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am gael y papur mewn fformat gwahanol) i:	Coroners, Inquests & Inquiries Policy Team Ministry of Justice Post point 7.37 102 Petty France London SW1H 9AJ E-bost: unlawful.killing.consultation@justice.gov.uk
Sut i ymateb:	Cyflwynwch eich ymateb fel y bydd yn dod i law erbyn 7 Rhagfyr 2026 drwy wefan Gofod y Dinesydd: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/standard-of-proof-for-the-short-form-inquest-concl/ Fel arall, gallwch gyflwyno'ch ymateb drwy'r e-bost i unlawful.killing.consultation@justice.gov.uk neu drwy'r post i'r cyfeiriad uchod.
Papur ymateb:	Cyhoeddir ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn: https://consult.justice.gov.uk/
Iaith Saesneg	Mae papur ymgynghori Saesneg ar gael yn: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/standard-of-proof-for-the-short-form-inquest-concl/
Asesiad o'r Effaith:	Ni chyhoeddwyd asesiad o'r effaith ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Y rheswm am hyn yw nad ydym yn credu, os byddai unrhyw newid yn cael ei weithredu yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwn, y byddai'n creu effaith sylweddol ar fusnesau, elusennau, sefydliadau gwirfoddol neu awdurdodau lleol. Byddwn yn falch o gael sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn am yr effeithiau o unrhyw newid nad ydynt yn glir o bosibl ar

hyn o bryd ar sail y data sydd ar gael, yn cynnwys y rheini sy'n effeithio ar sectorau neu gymunedau penodol.

Asesiad Cydraddoldebau: Mae Datganiad Cydraddoldebau wedi'i gynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon.

Cynnwys

Rhagair	7
Cyflwyniad	9
Adran 1 Pwrpas ymchwiliad gan grwner	12
Adran 2 Rôl y rheithgor mewn cwest	14
Adran 3 Y berthynas rhwng cwest a phrosesau ymchwilio cysylltiedig	15
Adran 4 Penderfyniadau mewn cwest	16
Adran 5 Penderfyniadau lladd anghyfreithlon	19
Adran 6 Yr Adolygiad Cyflym	21
Adran 7 Cwestiynau'r ymgynghoriad	23
Holiadur	24
Gwybodaeth amdanoch chi	26
Manylion cyswllt/Sut i ymateb	27
Cwynion neu sylwadau	27
Copiâu ychwanegol	27
Cyhoeddi ymateb	27
Grwpiau cynrychiadol	27
Cyfrinachedd	28
Asesiad o'r Effaith, Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg	29
Asesiad o'r effaith	29
Cydraddoldebau	29
Prawf Effaith ar yr Iaith Gymraeg	31
Dyletswydd Egwyddorion Amgylcheddol	32
Egwyddorion ymgynghori	33

Ymgynghoriad ar safon y prawf ar gyfer y penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon mewn cwest

Rhagair

Mae'r system crwneriaid yn cyflawni rôl hanfodol wrth ddarparu atebion i deuluoedd mewn profedigaeth a chryfhau hyder y cyhoedd yn ein system gyfiawnder. Rhaid i gwestau fod yn annibynnol ac yn ddiduedd gan ganolbwyntio ar ganfod y gwirionedd, heb ddweud pwy sydd ar fai na phriodoli atebolrwydd sifil neu droseddol, a rhaid iddynt gael eu gweld yn y goleuni hwnnw.

Ym mis Tachwedd 2020, yn nyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *R (on the application of Maughan) v Her Majesty's Senior Coroner for Oxfordshire [2020] UKSC 46* eglurwyd y dylai pob penderfyniad byr a naratif mewn cwest gael ei seilio ar y safon prawf sifil (h.y. yn ôl pwysau tebygolrwydd). Roedd hyn yn golygu newid yn y trothwy sy'n cael ei gymhwyso at y penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon a oedd, tan hynny, wedi'i seilio ar y safon prawf droseddol (h.y. y tu hwnt i bob amheuaeth resymol).

Yng ngolwg rhai grwpiau rhanddeiliaid, mae'r newid hwn wedi creu dryswch ac anghysondeb, yn enwedig yn y prosesau atebolrwydd yn dilyn marwolaethau a oedd yn ymwneud ag ymyrraeth sy'n gysylltiedig â'r wladwriaeth. Ar ôl ystyried y pryderon hyn, ac yn rhan o becyn o fesurau ehangach ar atebolrwydd yr heddlu, roedd yr Ysgrifennydd Cartref a'r Arglwydd Ganghellor (ar y pryd) wedi comisiynu Adolygiad Cyflym yn Hydref 2024 i edrych ar ddau fater penodol. Mae'r argymhellion o'r Adolygiad Cyflym yn eistedd ochr yn ochr â rhaglen ehangach o ddiwygio atebolrwydd yr heddlu, gan gynnwys yr Adolygiad annibynnol o'r Broses Gyfan ar System Atebolrwydd yr Heddlu a gyhoeddodd y Llywodraeth yn ddiweddar.

Y mater cyntaf a ystyriwyd gan yr Adolygiad Cyflym oedd a ddylid gosod y trothwy ar y safon prawf droseddol mewn achosion o gamymddwyn gan yr heddlu sy'n cynnwys y defnydd o rym. Mae'r Llywodraeth yn cymryd camau ar wahân ar y mater hwn, ac nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio yn hytrach ar yr ail fater a ystyriwyd gan yr Adolygiad Cyflym – yn fyr, yng ngoleuni'r effeithiau canfyddedig a'r goblygiadau ehangach o gymhwyso'r safon prawf sifil at y penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon mewn cwest, a ddylid ystyried mynd yn ôl at y safon prawf droseddol.

Ymgwymerwyd â'r Adolygiad gan y Gwir Anrhydeddus Syr Adrian Fulford PC a Tim Godwin OBE QPM. Cyhoeddwyd eu hadroddiad ar 24 Hydref 2025 ac mae ar gael yn [Police accountability: rapid review - GOV.UK](#). Rwyf yn ddiolchgar i'r ddau ohonynt am roi o'u hamser a'u harbenigedd at yr Adolygiad, ac am eu hargymhelliad y dylai'r Llywodraeth gynnal yr ymgynghoriad hwn, am nifer o resymau yn cynnwys er budd ehangach y

cyhoedd, fel y cam nesaf wrth ystyried a fyddai'n briodol mynd yn ôl at y trothwy troseddol mewn perthynas â lladd anghyfreithlon.

Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i unrhyw un sydd â diddordeb yn y mater hwn i gymryd rhan yn y drafodaeth sy'n mynd rhagddi ac i gyflwyno eu barn. Byddwn yn cymryd yr ymatebion a gawn i ystyriaeth wrth feddwl ymhellach ynghylch a fydd unrhyw newid yn briodol ac yn gyfiawn, gan roi sylw hefyd i'r egwyddorion pwysicaf, sef cyfiawnder, tryloywder a thegwch.

Rwyf yn annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y system crwneriaid a materion mynediad at gyfiawnder i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn a rhannu eu barn.

Alex Davies-Jones AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder

Cyflwyniad

1. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gofyn am farn ynghylch a fyddai'n briodol ystyried newid yn safon y prawf ar gyfer y penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon mewn cwest o'r safon sifil (h.y. yn ôl pwysau tebygolrwydd) i'r safon droseddol (h.y. y tu hwnt i bob amheuaeth resymol).
2. Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb proffesiynol neu bersonol yn y mater hwn, er mwyn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae'r fframwaith presennol yn gweithio ac o'r goblygiadau o unrhyw newid posibl yn y gwahanol gyd-destunau lle byddai'r cwestiwn o ladd anghyfreithlon yn gallu codi mewn cwest yng Nghymru a Lloegr.
3. Mae ymchwiliadau i farwolaethau yn gweithredu o dan awdurdodaeth ar wahân yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Er bod yr ymgynghoriad hwn ar agor i bawb, byddai unrhyw newidiadau sy'n deillio ohono'n gymwys i'r awdurdodaeth crwneriaid yng Nghymru a Lloegr yn unig.
4. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn er mwyn casglu tystiolaeth yn unig ac nid yw'n rhagdybio, nac yn rhagfynegi, y bydd unrhyw newid yn cael ei wneud. Byddwn yn gwerthuso'r holl ymatebion yn ofalus cyn ystyried y camau nesaf.
5. Yn y ddogfen hon, rydym wedi defnyddio'r term "safon prawf" i gyfeirio at y meincnod a gymerir wrth ddod i benderfyniad mewn cwest. Rydym wedi gwneud hyn am mai hwn yw'r term a ddefnyddir amlaf ac sy'n cael ei ddeall yn fwyaf eang yn y cyd-destun hwn. Er hynny, rydym yn cydnabod bod rhai rhanddeiliaid (yn cynnwys Prif Grwner Cymru a Lloegr a'i rhagflaenydd, HH Tommy Teague KC) yn credu bod termau eraill fel "lefel y sicrwydd", "graddau'r hyder" neu "graddau'r pendantrwydd" (a ddefnyddiwyd gan y Wir Anrhydeddus Fonesig Arden o Heswall DBE yn nyfarniad *Maughan* sy'n cael ei drafod yn ddiweddarach yn y ddogfen hon), yn well o ran adlewyrchu ethos a statws chwilysol sylfaenol yr ymchwiliad gan grwner.
6. Er eglurder, mae'r mater a ystyrir yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r casgliad byr o ladd anghyfreithlon yn awdurdodaeth y goron yn unig. Nid yw'n gysylltiedig â phenderfyniad diweddar y Llywodraeth i eithrio troseddau sy'n ymwneud â lladd anghyfreithlon fel dynladdiad neu farwolaeth drwy yrru'n beryglus o fodel dilyniant y Ddeddf Dedfrydu.
7. Anfonir copïau o'r papur ymgynghori at y canlynol:
 - Brake
 - Coleg Brenhinol y Patholegwyr

- Comisiynydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitaidd
- Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
- Cymdeithas Comisiynwyr Yr Heddlu a Throseddu
- Cymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr
- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Cymorth i Fenywod
- Dr Georgia Richards
- Ffederasiwn Yr Heddlu
- GIG Cymru
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
- Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon
- Hillsborough Law Now
- INQUEST
- JUSTICE
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth yr Alban
- NHS England
- Panel Cenedlaethol Rheolwyr Gwasanaethau Crwneriaid
- Prif Grwner Cymru a Lloegr
- Pwyllgor Gwasanaethau Crwneriaid
- Refuge
- StopWatch
- Y Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa
- Y Panel Cyngori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa
- Y Prif Swyddog Meddygol
- Y Pwyllgor Cyfiawnder
- Y Pwyllgor Materion Cartref
- Yr Adran Addysg
- Yr Adran Drafnidiaeth
- Yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
- Yr Adran Fusnes, Arloesi, Gwyddoniaeth a Masnach
- Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Yr Archwilydd Meddygol Cenedlaethol
- Yr Arglwyddes Brif Ustus
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu
- Y Swyddfa Gartref
- Y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn

- Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

8. Nid yw'r rhestr hon i fod yn un derfynol neu hollgynhwysol, a bydd croeso i ymatebion oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb yn y mater sydd dan sylw yn y papur hwn neu sydd â barn amdano.

Adran 1 Pwrpas ymchwiliad gan grwner

- 1.1 Mae crwneriaid yn farnwyr annibynnol sy'n arbenigo mewn ymchwilio i farwolaethau. Mae unrhyw un sydd â phryderon am farwolaeth rhywun yn gallu rhoi gwybod am hynny i grwner, ac mae ymarferwyr meddygol o dan ddyletswydd statudol i wneud hynny mewn amgylchiadau penodedig sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Hysbysu am Farwolaethau 2019.
- 1.2 Os bydd y crwner yn amau bod yr achos i farwolaeth a hysbyswyd yn un treisgar, annaturiol, anhysbys, neu ei bod wedi digwydd yn y ddalfa neu un o fannau cadw eraill y wladwriaeth, bydd o dan ddyletswydd statudol i agor ymchwiliad. Pwrpas statudol yr ymchwiliad yw darganfod pedair ffaith allweddol – pwy oedd y person a fu farw; pa bryd y bu farw; ble y bu farw; a sut y bu farw.
- 1.3 Os yw'r crwner o'r farn bod ymchwiliad i farwolaeth yn ymwneud ag Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) (fel arfer lle mae'r farwolaeth yn gysylltiedig ag un o sefydliadau'r wladwriaeth), rhaid iddo ymchwilio hefyd i amgylchiadau ehangach y farwolaeth. Fodd bynnag, yn y pen draw, bydd cwrpas unrhyw ymchwiliad yn fater i'r crwner fel barnwr annibynnol.
- 1.4 Unwaith y bydd ymchwiliad wedi'i agor, bydd yn arwain at gwest (h.y. gwrandawriad cyhoeddus mewn llys) oni bai fod y crwner wedi'i fodloni – cyn cyrraedd cam y cwest – fod y farwolaeth yn ganlyniad i achos naturiol ac nad oes budd i'r cyhoedd mewn cynnal cwest. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid iddo derfynu'r ymchwiliad heb gynnal cwest.
- 1.5 Rhaid i'r crwner ymchwilio i bob marwolaeth yn y ddalfa neu yn un arall o fannau cadw'r wladwriaeth, yn cynnwys marwolaethau o ganlyniad i achosion naturiol, a rhaid cynnal cwest mewn perthynas â'r farwolaeth honno. Oni bai fod y farwolaeth yn ganlyniad i achosion naturiol, rhaid cynnal y cwest gyda rheithgor.
- 1.6 Mae cwestau wedi'u bwriadu i fod yn niwtral, yn annibynnol ac yn ymwneud yn bennaf â darganfod y gwir am amgylchiadau'r farwolaeth dan sylw. Er mwyn ategu'r pwrpas hwn, mae'r gweithrediadau o natur chwylisol (h.y. canfod ffeithiau) yn hytrach nag un wrthwynebol ac, yn ôl y gyfraith, ni all y crwner na'r rheithgor ddweud bod rhywun ar fai na dyfarnu bod atebolrwydd sifil neu atebolrwydd troseddol ar ran person sydd wedi'i enwi.
- 1.7 Mae crwneriaid yn gweithredu o fewn fframwaith statudol clir sydd wedi'i amlinellu yn Neddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, ac yn Rheoliadau Crwneriaid (Ymchwiliadau) 2013 a Rheolau Crwneriaid (Cwestau) 2013 sy'n ei hategu.

- 1.8 Yn ogystal â hyn, mae'r Prif Grwner yn dyroddi canllawiau i helpu crwneriaid i ddilyn yr egwyddorion hyn yn gyson ac yn deg. I gael rhagor o fanylion, gweler Chief Coroner's Guidance, Advice and Law Sheets - Courts and Tribunals Judiciary.

Adran 2 Rôl y rheithgor mewn cwest

- 2.1 Mae cwestau'n cael eu gwranddo fel arfer gan grwner yn eistedd ar ei ben ei hun a, lle mae hyn yn digwydd, mae'r crwner yn gyfrifol am wneud penderfyniad sy'n ateb y pedwar cwestiwn statudol, sef pwy sydd wedi marw a pha bryd, ble a sut y bu farw; ac am ddarparu gwybodaeth arall am y person ymadawedig sydd ei hangen i gofrestru ei farwolaeth.
- 2.2 Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, rhaid cynnal cwest gyda rheithgor os oedd y farwolaeth wedi digwydd yn y ddalfa neu ym mannau cadw eraill y wladwriaeth; neu os credir ei bod yn ganlyniad i weithred neu anweithred gan swyddog heddlu; neu os oedd wedi'i hachosi gan ddamwain, gwenwyno neu glefyd hysbysadwy. Yn ogystal â hyn, gellir galw rheithgor mewn unrhyw achos lle mae'r crwner yn credu bod rheswm digonol dros wneud hynny. Mae cwest yn debygol o gael ei gynnal gyda rheithgor mewn achosion lle mae posibilrwydd o wneud penderfyniad o ladd anghyfreithlon. Os gelwir rheithgor, bydd y crwner yn llenwi'r manylion sydd eu hangen i gofrestru'r farwolaeth, ond rhaid i'r rhain gael eu cadarnhau gan y rheithgor er mwyn iddynt sefyll.

Adran 3 Y berthynas rhwng cwest a phrosesau ymchwilio cysylltiedig

- 3.1 Mae ymchwiliad a chwest y crwner yn gweithredu'n annibynnol ar unrhyw brosesau ymchwilio sy'n gysylltiedig gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, treial troseddol, achos sifil, gwrandawriad am gamymddwyn, neu ymchwiliad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, er enghraifft, neu Gangen Ymchwilio Damweiniau.
- 3.2 Fodd bynnag, lle mae achos troseddol yn yr arfaeth neu wedi dechrau mewn cysylltiad â'r farwolaeth, mae'n ofynnol o dan y gyfraith fod y crwner yn atal ei ymchwiliad a'i gwest tra bydd yr achos hwnnw'n para, ar gais yr awdurdod sy'n erlyn neu'r Arglwydd Ganghellor (fel y bo'n briodol), oni bai ei fod o'r farn bod rheswm eithriadol dros beidio â gwneud hynny. Yn ogystal â hyn, mae'n debygol y bydd y crwner yn atal ei ymchwiliad nes cwblhau unrhyw brosesau ymchwilio perthnasol eraill, er enghraifft, y rheini a gyflawnir gan y Comisiwn Ansawdd Gofal, y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu neu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Y prif fwriad yn hyn o beth yw osgoi unrhyw ddyblygu wrth ymchwilio.
- 3.3 Ar ôl cwblhau unrhyw brosesau cysylltiedig, bydd y crwner yn penderfynu a fydd yn ailddechrau ei ymchwiliad neu beidio, yn cynnwys gwrandawriad y cwest. Ni chaiff wneud hynny oni bai ei fod yn credu bod rheswm digonol. Mae hyn yn debygol o ddibynnu ar ba un a yw o'r farn bod y pedwar cwestiwn statudol (pwy sydd wedi marw a pha bryd, ble a sut y bu farw) wedi cael eu hateb yn foddhaol eisoes drwy'r gweithrediadau cysylltiedig. Os bydd y crwner yn ailddechrau ei ymchwiliad, bydd yn gofyn fel arfer am gael y canfyddiadau o unrhyw brosesau cysylltiedig eraill fel tystiolaeth.
- 3.4 Lle nad yw cwest wedi'i ailddechrau a'i benderfynu, ni fydd penderfyniad ffurfiol yn cael ei gofnodi mewn perthynas â'r cwest.
- 3.5 Mae'n bwysig nodi y gall y crwner benderfynu ailddechrau ei ymchwiliad mewn achosion lle na wnaed cyhuddiadau troseddol, neu lle mae erlyniad am drosedd wedi arwain at ryddfarn. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai pwrpas penodol y cwest yw canfod ffeithiau, ac nad yw'n ceisio nac yn gallu ceisio penderfynu atebolrwydd troseddol.

Adran 4 Penderfyniadau mewn cwest

- 4.1 Ar ddiwedd ymchwiliad a chwest y crwner, bydd ef (neu'r rheithgor, lle bo'n berthnasol) yn dod i benderfyniad ynghylch achos marwolaeth y person ymadawedig. Lle bo'n briodol, gall hyn fod ar ffurf y penderfyniad "byr" sy'n berthnasol (er enghraifft, "hunanladdiad", "lladd anghyfreithlon", "damwain" neu "achosion naturiol") yn unol â'r Nodiadau ar gyfer Ffurflen 2 yn yr Atodlen i Reolau Crwneriaid (Cwestau) 2013, fel y'u diwygiwyd gan Reolau Crwneriaid (Cwestau) (Diwygio) 2021 [https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2021/1379/contents/madesy'n adlewyrchu'r newid yn safon y prawf ar gyfer penderfyniadau byr o hunanladdiad a lladd anghyfreithlon, a gadarnhawyd drwy benderfyniad y Goruchaf Lys yn achos *Maughan* \(gweler isod\). Mae'r penderfyniadau byr hyn yn darparu cysondeb ar draws y system ac yn hwyluso'r gwaith o gasglu ystadegau gwladol.](https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2021/1379/contents/madesy'n%20adlewyrchu'r%20newid%20yn%20safon%20y%20prawf%20ar%20gyfer%20penderfyniadau%20byr%20o%20hunanladdiad%20a%20lladd%20anghyfreithlon,%20a%20gadarnhawyd%20drwy%20benderfyniad%20y%20Goruchaf%20Lys%20yn%20achos%20Maughan%20(gweler%20isod).)
- 4.2 Fel arall, mae crwneriaid neu reithgorau'n gallu cofnodi penderfyniad naratif. Datganiad ffeithiol yw hwn sy'n disgrifio amgylchiadau'r farwolaeth yn fwy manwl nag y mae penderfyniad byr. Defnyddir penderfyniadau naratif yn aml lle nad oes yr un o'r penderfyniadau byr sydd ar gael yn gwbl addas i'r achos dan sylw ac maent yn cynnig hyblygrwydd mewn achosion cymhleth. Mewn rhai achosion, mae penderfyniad naratif yn gallu bod yn gyfystyr â sylwedd y penderfyniad byr (er enghraifft, lladd anghyfreithlon) hyd yn oed os nad yw'r penderfyniad byr hwnnw'n cael ei gofnodi'n benodol. Un dewis ychwanegol yw cyfuno penderfyniad byr ag esboniad naratif byr i ychwanegu gwybodaeth am y cyd-destun.
- 4.3 Oherwydd hyn, mae penderfyniadau byr yn aros yn bwysig o ran darparu cysondeb a thryloywder, tra bydd penderfyniadau naratif yn darparu gwybodaeth ychwanegol am y cyd-destun lle bo angen. Yn yr un modd â phenderfyniadau byr, nid yw penderfyniadau naratif yn priodoli bai neu atebolrwydd ond yn ceisio darparu dealltwriaeth cliriach o'r ffordd y digwyddodd y farwolaeth.
- 4.4 Cyn achos *Maughan*, roedd yr holl penderfyniadau byr, naratif a chyfun yn cael eu seilio ar y safon prawf sifil (h.y. yn ôl pwysau tebygolrwydd) ac eithrio'r penderfyniadau byr o hunanladdiad a lladd anghyfreithlon a oedd, yn hanesyddol, yn cael eu seilio ar y safon prawf droseddol (h.y. y tu hwnt i bob amheuaeth resymol).
- 4.5 Roedd hyn yn adlewyrchu difrifoldeb y ddau benderfyniad penodol hyn, a oedd yn cael eu gweld yn cydweddu'n agos ag atebolrwydd troseddol. Fel y nododd y Fonesig Arden yn nyfarniad y Goruchaf Lys yn achos *Maughan*, roedd unwaith yn ddyletswydd ar reithgor crwner, wrth gyhoeddi penderfyniad o lofruddiaeth, dynladdiad neu fabanladdiad, enwi'r unigolyn a oedd yn gyfrifol am y drosedd neu a

oedd yn affeithiwr cyn y weithred. Diwygiwyd yr arferiad hwn gan adran 56 o Ddeddf Cyfraith Trosedd 1977, a oedd yn gwahardd crwneriaid rhag dyfarnu unrhyw berson yn euog o lofruddiaeth, dynladdiad neu fabanladdiad. Mae hyn wedi'i ddisodli ers hynny gan adran 5(3) o Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 sy'n gwahardd crwneriaid yn benodol rhag penderfynu ar unrhyw fater o atebolrwydd troseddol ar ran person sydd wedi'i enwi, neu atebolrwydd sifil.

Dyfarniad *Maughan*

- 4.6 Yn Hydref 2017, cynhaliwyd cwest gan Uwch Grwner Swydd Rydychen, wrth eistedd gyda rheithgor, i farwolaeth James Maughan, a fu farw yng Ngharchar EF Bullingdon.
- 4.7 Penderfynodd yr Uwch Grwner na fyddai'n ddiogel i'r rheithgor ddod i benderfyniad byr o ddynladdiad am nad oedd modd iddynt fod yn sicr y tu hwnt i bob amheuaeth resymol (h.y. at y safon prawf droseddol) fod yr ymadawedig wedi bwriadu ei ladd ei hun. Yn lle hynny, gofynnodd yr Uwch Grwner i'r rheithgor wneud datganiad naratif am amgylchiadau'r farwolaeth yn ôl pwysau tebygolrwydd (h.y. at y safon prawf sifil).
- 4.8 Y penderfyniad yn natganiad y rheithgor oedd bod James Maughan, yn ôl pwysau tebygolrwydd, wedi bwriadu ei ladd ei hun. Cychwynnwyd achos am adolygiad barnwrol gan ei frawd er mwyn profi bod penderfyniad y rheithgor yn anghyfreithlon, gan ddadlau bod yr Uwch Grwner wedi gwneud camgymeriad wrth gyfarwyddo'r rheithgor i gymhwyso'r safon prawf sifil wrth ystyried a oedd yr ymadawedig wedi ei ladd ei hun.
- 4.9 Gwrthodwyd y cais am adolygiad barnwrol gan y Llys Adrannol, a benderfynodd mai safon y prawf ym mhob penderfyniad o hunanladdiad mewn cwest (boed yn benderfyniad byr neu'n benderfyniad naratif) oedd y safon sifil. Apeliodd y ceisydd yn erbyn penderfyniad y Llys Adrannol. Cadarnhawyd dyfarniad y Llys Adrannol gan y Llys Apêl ond, ar ben hynny, penderfynodd y dylai'r safon prawf droseddol barhau i fod yn gymwys i benderfyniadau o ladd anghyfreithlon mewn cwest.
- 4.10 Aethpwyd â'r apêl i'r Goruchaf Lys, a gyhoeddodd ei ddyfarniad ym mis Tachwedd 2020. O fwyafrif, gwrthododd y Goruchaf Lys yr apêl a phenderfynu mai safon y prawf ar gyfer pob penderfyniad mewn cwest, boed yn benderfyniad naratif neu'n benderfyniad byr (ac yn cynnwys y penderfyniadau byr o hunanladdiad a lladd anghyfreithlon) oedd pwysau tebygolrwydd (h.y. y safon sifil).
- 4.11 Y ddadl yn y dyfarniad oedd bod hyn yn gyson â'r egwyddor gyfreithiol o gymhwyso'r safon sifil mewn achosion eraill sydd heb fod yn rhai troseddol ac nad yw'n creu atebolrwydd troseddol neu'n cynyddu'r risg o erlyn, yn fwy na'r hyn sydd eisoes yn bod mewn unrhyw achos sifil cysylltiedig. Nodwyd hefyd yn y dyfarniad mai

afresymegol fyddai cymhwyso safonau gwahanol at benderfyniadau byr a rhai naratif, gan fod y ddau'n ateb yr un diben o gadarnhau ffeithiau. Nododd hefyd y byddai cwest yn cael ei atal fel arfer wrth aros am ddiwedd unrhyw achos troseddol cysylltiedig, gan leihau'r risg o gael canlyniadau a allai ymddangos yn groes.

- 4.12 Gyda golwg ar ladd anghyfreithlon yn benodol, roedd y Llys yn pryderu am y posibilrwydd o danseilio hyder y cyhoedd, ac y byddai teuluoedd mewn profedigaeth yn gallu cael eu gadael heb atebion, os byddai cymhwyso'r safon droseddol uwch yn arwain at beidio â dod i benderfyniad o ladd anghyfreithlon.
- 4.13 Bwriad y penderfyniad gan y Goruchaf Lys oedd dileu anghysonderau ym mhroses y cwest. Fodd bynnag, mae rhai grwpiau rhanddeiliaid wedi mynegi pryder am ei oblygiadau ehangach ac, yn benodol, am y ffordd y mae penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon yn rhyngweithio â'r canlyniadau i unrhyw ymchwiliadau eraill sy'n digwydd mewn perthynas â marwolaeth benodol – er enghraifft, achos am gamymddwyn proffesiynol neu dreial am laddiad. Mae'r rhesymau am hyn yn cael eu trafod ymhellach isod.
- 4.14 Fel y nodwyd uchod, roedd dyfarniad y Goruchaf Lys hefyd yn cadarnhau y dylai'r safon prawf sifil gael ei chymhwyso at benderfyniadau byr o hunanladdiad mewn cwest. Er mwyn bod yn glir, nid yw'r ymgynghoriad hwn na'r Adolygiad Cyflym a'i rhagflaenodd yn trafod safon y prawf am hunanladdiad, ac nid ydynt yn berthnasol iddo. Yn ogystal â hynny, nid ydynt yn ymwneud â'r penderfyniad byr o ladd cyfreithlon ac nid ydynt yn berthnasol iddo (gweler Adran 5 am ragor o wybodaeth am hyn), nac ychwaith yn ystyried unrhyw newid yn safon y prawf ar gyfer penderfyniadau naratif.

Adran 5 Penderfyniadau lladd anghyfreithlon

- 5.1 Gall crwner neu reithgor ddod i benderfyniad byr o ladd anghyfreithlon lle mae'r dystiolaeth a glywyd mewn cwest yn dangos bod y farwolaeth yn ganlyniad i un o'r troseddau penodedig, sef llofruddiaeth, dynladdiad (yn cynnwys esgeuluster difrifol neu ddynladdiad corfforaethol), neu fabanladdiad. Yn yr un modd â phob penderfyniad arall mewn cwest, nid yw dyfarniad o ladd anghyfreithlon yn gallu priodoli atebolrwydd troseddol neu sifil na rhoi'r bai ar unigolyn a enwyd. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu canfyddiadau ffeithiol y crwner neu'r rheithgor, ar sail y dystiolaeth a glywyd yn ystod y cwest.
- 5.2 Mae'r penderfyniadau byr sydd ar gael i grwneriaid a rheithgorau hefyd yn cynnwys y penderfyniad o ladd cyfreithlon. Gellir rhoi'r dyfarniad hwn lle mae'r dystiolaeth a gafwyd yn y cwest yn dangos bod y farwolaeth yn ganlyniad i ddefnyddio grym yn gyfiawn o dan y gyfraith – er enghraifft, wrth amddiffyn yr hunan neu wrth arfer pwerau yn gyfreithlon gan awdurdod cyhoeddus. Unwaith eto, yn yr un modd â phenderfyniadau eraill mewn cwest, nid yw dyfarniad o ladd cyfreithlon yn dangos atebolrwydd troseddol, atebolrwydd sifil neu fai, ond yn hytrach yn adlewyrchu'r canfyddiad ffeithiol gan y crwner neu'r rheithgor.
- 5.3 Mae'r penderfyniadau byr o ladd anghyfreithlon a lladd cyfreithlon yn rhai penodol ac ar wahân, ac ni fydd penderfyniad gan y crwner neu'r rheithgor i beidio â dod i un o'r penderfyniadau hyn mewn achos perthnasol yn arwain o reidrwydd at ddod i'r penderfyniad arall. Y rheswm am hyn yw na fydd y dystiolaeth, mewn rhai achosion, yn ategu'r naill benderfyniad na'r llall, a gall y crwner neu'r rheithgor gyhoeddi penderfyniad naratif neu benderfyniad byr arall yn lle hynny. Rhaid seilio'r penderfyniad ym mhob cwest ar ffeithiau penodol yr achos.
- 5.4 Nid oedd achos *Maughan* na'r Adolygiad Cyflym wedi rhoi sylw penodol i safon y prawf ar gyfer lladd cyfreithlon, ac nid yw'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.
- 5.5 Mae'r ddogfen Ystadegau Crwneriaid¹ a gyhoeddir bob blwyddyn gan y Llywodraeth yn cynnwys nifer y penderfyniadau byr o ladd anghyfreithlon mewn cwestau ym mhob blwyddyn galendr. Mae'r niferoedd blynyddol er 2015 wedi'u dangos yn y tabl isod, ynghyd â chyfanswm y penderfyniadau mewn cwestau ym mhob blwyddyn:

¹ Ystadegau'r Crwner 2024

Penderfyniadau mewn Cwestau: Lladd Anghyfreithlon (2015–2024) Tabl 1

Blwyddyn	Lladd Anghyfreithlon	Cyfanswm y Penderfyniadau
2015	141	35,473
2016	221	40,467
2017	109	33,945
2018	94	30,732
2019	135	31,284
2020	61	30,936
2021	101	32,322
2022	98	35,643
2023	59	39,469
2024	89	39,586

- 5.6 Fel y mae'r tabl yn dangos, mae penderfyniadau o ladd anghyfreithlon yn gyfran fach o'r holl benderfyniadau mewn cwestau ym mhob blwyddyn. Fodd bynnag, maent yn codi mewn nifer o wahanol amgylchiadau gan gynnwys rhai mewn perthynas â chysylltiad â'r heddlu, darparu gofal iechyd, y ddalfa a mannau cadw eraill, ac yn y gweithle. Nid oes yr un set ddata gyhoeddus sy'n cofnodi penderfyniadau o ladd anghyfreithlon yn ôl y lleoliad neu'r math o farwolaeth.

Adran 6 Yr Adolygiad Cyflym

- 6.1 Comisiynwyd yr Adolygiad Cyflym yn Hydref 2024, gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Arglwydd Ganghellor (ar y pryd), yn rhan o becyn ehangach o fesurau ar atebolrwydd yr heddlu. Fe'i sefydlwyd mewn ymateb i bryderon ymysg rhanddeiliaid, yn enwedig ynghylch y defnydd o'r penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon mewn achosion sy'n ymwneud â marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r wladwriaeth fel y rheini sy'n digwydd yn nalfeydd yr heddlu neu yn dilyn y defnydd o rym gan awdurdodau cyhoeddus.
- 6.2 Roedd yr Adolygiad wedi edrych hefyd ar gwestiynau ynghylch safon y prawf sy'n cael ei chymhwyso mewn achosion camymddygiad yr heddlu sy'n ymwneud â'r defnydd o rym. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau ar wahân ar y mater hwnnw, ac nid yw'n cael ei ystyried yn yr ymgynghoriad hwn.
- 6.3 Roedd yr Adolygiad wedi ystyried yn benodol a oedd cymhwyso'r safon sifil mewn penderfyniadau o ladd anghyfreithlon mewn cwest yn codi materion yn ymwneud â'r gyfraith, gweithrediadau neu hyder y cyhoedd. Edrychodd ar gysondeb y penderfyniadau o ladd anghyfreithlon mewn cwestau o gymharu â phrosesau cyfreithiol eraill, yn cynnwys treialon troseddol ac achosion camymddygiad sy'n gweithredu o dan y safon prawf droseddol uwch.
- 6.4 Yn benodol, roedd yr Adolygiad wedi edrych ar y ffordd roedd cymhwyso safonau prawf gwahanol mewn ymchwiliadau cysylltiedig yn gallu peri dryswch a phryder. Er enghraifft, byddai rhywun a oedd yn gysylltiedig â marwolaeth benodol yn gallu cael ei ryddfarnu ar gyhuddiad o laddiad neu ddynladdiad mewn treial troseddol sy'n gofyn am brawf y tu hwnt i bob amheuaeth resymol; ond, er hynny, byddai cwest i'r farwolaeth honno'n gallu dod i'r penderfyniad ei fod yn lladd anghyfreithlon, ar sail y safon sifil is. Er bod y prosesau cyfreithiol hyn yn ateb dibenion gwahanol, gellid dadlau bod y canlyniadau gwrthgyferbyniol yn creu canfyddiad o anghysondeb ac ansicrwydd ynghylch atebolrwydd. Yn ogystal â hyn, roedd rhai o'r cyfranwyr i'r Adolygiad wedi codi pryderon am yr effaith ar y rheini sydd mewn rolau lle mae lefel uchel o risg, fel plismona ag arfau tanio, gan ofni y byddai craffu dro ar ôl tro o dan wahanol reolau yn gallu amharu ar hyder, morâl a'r gallu i recriwtio.
- 6.5 Roedd yr Adolygiad wedi nodi hefyd fod cwestau yn dal i fod yn ffordd bwysig i ystyried pryderon difrifol a dynodi risgiau i fywyd. Daeth yr adolygwyr i'r casgliad na fyddai newid safon y prawf ar gyfer penderfyniad byr penodol yn effeithio ar allu'r crwner i ddarparu canfyddiadau manwl drwy benderfyniadau naratif, neu gyhoeddi Adroddiad Atal Marwolaethau yn y Dyfodol mewn achosion lle mae o'r farn bod angen gwneud hynny.

- 6.6 Ar wahân i hyn, mae'r Llywodraeth wedi comisiynu Adolygiad annibynnol o'r Broses Gyfan ar System Atebolrwydd yr Heddlu yn ddiweddar, dan gadeiryddiaeth Y Fonesig Lynne Owens DBE QPM a Jason Beer KC. Mae'r Adolygiad ar wahân i'r ymgynghoriad hwn, ac mae ei waith yn rhan o'r rhaglen ehangach o ddiwygiadau sy'n ymwneud ag atebolrwydd, tryloywder a hyder y cyhoedd. Bydd yr Adolygiad yn archwilio prydlondeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y systemau ar gyfer dwyn swyddogion yr heddlu i gyfrif, a bydd yn ystyried sut mae'r systemau hynny'n rhyngweithio â'r systemau cyfiawnder troseddol, crwnerol a sifil ehangach. Mae rhagor o fanylion ar gael yn Adolygiad o'r broses gyfan ar system atebolrwydd yr heddlu – GOV.UK.

Adran 7 Cwestiynau'r ymgynghoriad

- 7.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn a gwybodaeth i lywio ystyriaeth bellach ynghylch a ddylai safon y prawf ar gyfer penderfyniadau byr o ladd anghyfreithlon mewn cwest gael ei newid o'r **safon sifil** ("yn ôl pwysau tebygolrwydd") yn ôl i'r **safon droseddol** ("y tu hwnt i bob amheuaeth resymol").
- 7.2 Mae cwestau'n chwarae rhan hollbwysig wrth ddarparu atebion i deuluoedd mewn profedigaeth, gan sicrhau atebolrwydd i'r cyhoedd a helpu i atal marwolaethau yn y dyfodol. Mae safon y prawf a gymhwysir yn y gweithrediadau hyn yn creu goblygiadau i'r unigolion a theuluoedd sy'n gysylltiedig a goblygiadau o ran hyder y cyhoedd yn y system crwneriaid, a'r ffordd y mae unigolion a chyrff cyhoeddus yn cymryd rhan yn y broses honno.
- 7.3 Fel y nodwyd yn Adran 6, mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn Adolygiad Cyflym a gomisiynwyd gan y Llywodraeth yn 2024. Roedd yr Adolygiad wedi argymhell y dylid cael ymgysylltu ehangach â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch a yw'r safon prawf sifil yn briodol o hyd ar gyfer penderfyniadau o ladd anghyfreithlon mewn cwest, er mwyn ei ystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad ar y mater hwn.
- 7.4 Er bod yr Adolygiad wedi clywed pryderon am y ffordd y mae'r safon bresennol yn cael ei gweld mewn achosion sy'n gysylltiedig â chyrff y wladwriaeth, yn enwedig plismona, pwysleisiodd yn ei adroddiad ei bod yn amlwg y byddai unrhyw newid o'r fath yn gymwys i bob cwest lle y gellid ystyried dod i benderfyniad o ladd anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, marwolaethau yn y ddalfa, mewn lleoliadau gofal iechyd, mewn gweithleoedd, ac mewn cyd-destunau eraill a allai fod yn gysylltiedig â gwasanaethau a sefydliadau cyhoeddus neu breifat.
- 7.5 Drwy'r ymgynghoriad hwn, mae'r Llywodraeth yn ceisio:
- cael gwell dealltwriaeth o'r effeithiau cadarnhaol a negyddol o unrhyw newid yn safon y prawf ar wahanol sectorau a chymunedau;
 - cyfrannu at yr ystyriaeth i'r goblygiadau ehangach o ran uniondeb ac effeithiolrwydd proses y cwest.
- 7.6 Unig ddiben yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn a gwybodaeth ac nid yw'n cymryd, nac yn dangos, y bydd unrhyw newid yn cael ei wneud. Nid yw ychwaith yn rhagdybio bod y dull presennol o weithredu yn un amhriodol. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion yn ofalus cyn penderfynu ar y camau nesaf.

Holiadur

Byddwn yn falch o gael eich barn, ac unrhyw wybodaeth ategol, mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol.

Gallwch ymateb mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol: drwy lenwi'r holiadur ar-lein (sy'n cynnwys blychau testun rhydd ar gyfer pob cwestiwn), drwy e-bostio'ch atebion mewn dogfen neu'n rhan o neges e-bost, neu drwy anfon eich ymateb ar bapur i'r cyfeiriad post sydd wedi'i ddarparu. Gofynnir i chi beidio â chyflwyno'ch ymateb drwy fwy nag un llwybr. Ceir y manylion llawn yn ddiweddarach yn y ddogfen hon o dan 'Sut i ymateb'.

Cwestiwn 1.

A ydych yn credu y dylai safon y prawf ar gyfer y penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon mewn cwest gael ei newid o'r safon sifil ("yn ôl pwysau tebygolrwydd") yn ôl i'r safon droseddol ("y tu hwnt i bob amheuaeth resymol")? Eglurwch y rhesymau dros eich ymateb.

Cwestiwn 2.

Os byddai safon y prawf ar gyfer penderfyniadau o ladd anghyfreithlon yn cael ei newid, pa effeithiau, yn gadarnhaol neu'n negyddol, rydych yn eu rhag-weld ar y sectorau sy'n fwyaf tebygol o fod â rhan mewn achosion perthnasol (e.e. plismona, gofal iechyd, carchardai, gweithleoedd)? Darparwch enghreifftiau neu dystiolaeth os yw'n bosibl.

Cwestiwn 3.

Pa fanteision neu anfanteision posibl y gellid eu cael o gymhwyso safon wahanol ar gyfer y penderfyniad byr o ladd anghyfreithlon a phenderfyniad naratif sy'n gyfystyr â dyfarniad o ladd anghyfreithlon?

Cwestiwn 4.

Yn eich barn chi, sut byddai cymhwyso safonau gwahanol, fel y nodwyd yng Nghwestiwn 3, yn gallu effeithio ar gysondeb neu degwch y penderfyniadau mewn cwest?

Cwestiwn 5.

Sut byddai newid yn safon y prawf ar gyfer penderfyniadau o ladd anghyfreithlon yn gallu effeithio ar hyder y cyhoedd yn y system cwestau?

Cwestiwn 6.

Sut byddai unrhyw newid yn gallu effeithio ar brofiadau teuluoedd mewn profedigaeth neu gymunedau sy'n cael eu heffeithio gan farwolaethau sy'n gysylltiedig ag asiantaethau'r wladwriaeth, yn benodol?

Cwestiwn 7.

Rhowch wybod i ni os ydych yn credu y byddai'r cynnig yn gallu cael effeithiau anffafriol ar gydraddoldebau, pa effeithiau y gellid eu cael a sut y gallent godi.

Cwestiwn 8.

Os byddai safon y prawf ar gyfer penderfyniadau o ladd anghyfreithlon yn cael ei newid, a ydych yn credu y dylid hefyd ailystyried safon y prawf ar gyfer penderfyniadau o ladd cyfreithlon, neu unrhyw benderfyniad byr arall? Eglurwch y rhesymau dros eich ymateb.

Cwestiwn 9.

A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Gwybodaeth amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i gyflwyno gwybodaeth amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad (os ydych yn postio copi caled)	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol):	
Cyfeiriad	
Cod post	
Bydd ymatebion a gyflwynwyd drwy ddull electronig yn cael eu cydnabod yn awtomatig. Os ydych yn postio copi caled, a fydddech yn hoffi i ni gydnabod derbyn eich ymateb. Os felly, ticiwch y blwch hwn.	☐ (ticiwch y blwch)
I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod (os ydych yn postio copi caled)	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, rhowch enw'r grŵp hwnnw i ni, os gwelwch yn dda, gyda disgrifiad cryno o'r bobl neu'r sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 7 Rhagfyr 2026 i:

E-bost: unlawful.killing.consultation@justice.gov.uk

Ar-lein: <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/standard-of-proof-for-the-short-form-inquest-concl/>

Post: Coroners Inquests & Inquiries Policy Team
Ministry of Justice
Post point 7.37
102 Petty France
London SW1H 9AJ

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copiau ychwanegol

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatiau eraill drwy wneud cais i unlawful.killing.consultation@justice.gov.uk.

Cyhoeddi ymateb

Bwriedir cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad hwn o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb, fel y gofynnwyd uchod.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, rhaid i ni eich atgoffa bod Cod Ymarfer statudol o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymïadau cyfrinachedd. Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y bydd modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG chi yn cael ei ystyried yn un sydd, ar ei ben ei hun, yn rhwymo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn prosesu eich data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol eu datgelu i drydydd partïon.

Asesiad o'r Effaith, Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg

Asesiad o'r effaith

Nid ydym wedi cwblhau asesiad o'r effaith economaidd gan na ddylid cael unrhyw effaith ar fusnesau, elusennau neu'r sector gwirfoddol o ganlyniad i unrhyw newid a allai ddilyn ein hystyriaeth i'r mater sy'n cael ei drafod yn y ddogfen hon. Mae data o 2015–2024 yn dangos bod nifer y penderfyniadau o ladd anghyfreithlon yn parhau'n isel iawn—llai na 0.5% ar gyfartaledd o'r holl gwestau bob blwyddyn. Nid oes tystiolaeth bod y newid yn safon y prawf yn dilyn dyfarniad *Maughan* wedi cael unrhyw effeithiau gweithredol neu ariannol ar gyrrff cyhoeddus na'r sector preifat. Fodd bynnag, byddwn yn falch o gael sylwadau am unrhyw effeithiau sydd heb fod yn amlwg o'r data, yn cynnwys y rheini sy'n effeithio ar sectorau neu gymunedau penodol.

Cydraddoldebau

O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sydd wedi'i phennu yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf), mae'n ofynnol bod Gweinidogion a llunwyr polisi yn ystyried yr effeithiau ar gydraddoldebau o gynigion polisi dichonol mewn perthynas â'r canlynol:

- (a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan neu o dan y Ddeddf;
- (b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu;
- (c) meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Dylid defnyddio Dadansoddiad Cydraddoldeb Cymesur i ystyried effeithiau tebygol ar bobl sy'n rhannu un neu ragor o'r naw nodwedd warchodedig sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf:

1. Oed;
2. Anabledd;
3. Ailbennu rhywedd;
4. Beichiogrwydd a mamolaeth;
5. Hil;
6. Crefydd neu gred;
7. Rhyw;

8. Cyfeiriadedd rhywiol;
9. Priodas neu bartneriaeth sifil (*dim ond mewn perthynas â nod cyntaf Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus*).

Crynodeb: Wrth baratoi'r Datganiad Cydraddoldebau hwn, ystyriwyd yr effaith o unrhyw newid yn safon y prawf o'r safon sifil i'r safon droseddol ar gyfer penderfyniadau byr o ladd anghyfreithlon mewn cwest, a'r effaith o beidio â newid.

Ar sail y dystiolaeth sy'n hysbys, rydym wedi dod i'r casgliad y byddai unrhyw benderfyniad ar y mater hwn yn y dyfodol, boed hynny i gadw'r sefyllfa fel y mae neu gyflwyno newid, yn parhau i gwrdd â'r safonau a bennwyd yn adran 149 o'r Ddeddf sy'n ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, yn rhoi 'sylw dyladwy' i'r naw 'nodwedd warchodedig' sydd wedi'u pennu yn y Ddeddf. Fodd bynnag, fel rydym wedi dweud o'r blaen yn y ddogfen hon, rydym yn awyddus i gael barn ymatebwyr yn y cyd-destun hwn.

Gwahaniaethu uniongyrchol

Ein hasesiad yw y byddai unrhyw newid yn safon y prawf ar gyfer lladd anghyfreithlon, neu ddim newid, yn annhebygol o wahaniaethu'n uniongyrchol gan na fyddai'n debygol o effeithio'n llai ffafriol ar bobl oherwydd nodwedd warchodedig.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

Rydym o'r farn, pa un a wneir newid yn safon y prawf ar gyfer lladd anghyfreithlon neu beidio, na fyddai hyn yn debygol o arwain at wahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn unigolion sydd â nodwedd warchodedig.

Er hynny, rydym yn cydnabod y byddai canfyddiadau o anfantais yn gallu codi mewn cyd-destunau penodol, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â marwolaethau cysylltiedig â'r wladwriaeth fel y rheini sy'n digwydd yn y ddalfa neu'n dilyn cysylltiad â'r heddlu. Mae'n bosibl bod pryderon ehangach mewn cymdeithas a phatrymau anghydraddoldeb hanesyddol yn dylanwadu ar y canfyddiadau hyn.

Felly, un rhan allweddol o unrhyw gamau a gymerir nesaf fydd deall yr effeithiau, yn cynnwys yr effeithiau ar gydraddoldebau, o unrhyw newid. Oherwydd hynny, rydym yn awyddus i geisio barn o safbwyntiau mor eang â phosibl am yr effeithiau dichonol ar gydraddoldebau, i'w hystyried ymhellach yn y dyfodol.

Tystiolaeth a Dadansoddiad

Mae penderfyniadau o ladd anghyfreithlon yn brin a gallant godi mewn amrywiaeth o amgylchiadau, yn cynnwys – ymysg eraill – marwolaethau yn ymwneud â chysylltiad â'r heddlu, darparu gofal iechyd neu fathau eraill o ymwneud â'r wladwriaeth.

Er bod pryder ymysg y cyhoedd am y posibilrwydd bod nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r wladwriaeth yn uwch na'r cyfartaledd ymhlith rhai grwpiau, nid oes data

cynhwysfawr ar hyn o bryd sy'n dangos bod cysylltiad rhwng y penderfyniadau hyn a nodweddion gwarchodedig neu leoliadau penodol. Felly, byddwn yn falch o gael sylwadau am unrhyw effeithiau dichonol ar gydraddoldebau sydd heb eu cofnodi yn y data presennol.

Felly, bydd yr ymgynghoriad hwn yn ein galluogi i gasglu rhagor o dystiolaeth a phersbectifau ar y ffordd y byddai unrhyw newid yn gallu effeithio ar unigolion a chymunedau, yn enwedig mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn ein helpu i gael dealltwriaeth mwy manwl o'r effeithiau dichonol ar gydraddoldebau ac i lywio unrhyw ddatblygiadau polisi yn y dyfodol.

Aflonyddu ac erledigaeth

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael, nid ydym yn credu y byddai ystyriaethau o ran safon y prawf ar gyfer lladd anghyfreithlon, ai ei newid i'r safon droseddol ai peidio, yn achosi risg o aflonyddu neu erledigaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, byddwn yn falch o gael sylwadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r mater hwn wrth ei ystyried yn y dyfodol.

Gwahaniaethu sy'n codi o anabledd a'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol

Nid ydym yn credu y byddai ystyriaethau o ran safon y prawf ar gyfer lladd anghyfreithlon, ai ei newid i'r safon droseddol ai peidio, yn achosi unrhyw wahaniaethu mewn perthynas ag unigolion a allai fod ag anabledd. Fodd bynnag, byddem yn parhau i fonitro unrhyw effeithiau dichonol o unrhyw newid ac i ddarparu addasiadau rhesymol ar gyfer y grŵp hwn er mwyn sicrhau bod cymorth priodol wedi'i ddarparu.

Hyrwyddo cyfle cyfartal

Rydym wedi ystyried sut byddai'r ymgynghoriad yn gallu effeithio ar y ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal drwy gwrdd ag anghenion unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig, lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion y rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig benodol honno. Mae'r ymgynghoriad hwn yn annhebygol o effeithio ar y ddyletswydd hon.

Meithrin cysylltiadau da

Nid ydym yn credu bod cyfle drwy'r ymgynghoriad i hyrwyddo mesurau sy'n meithrin cysylltiadau da.

Prawf Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Cyhoeddwyd fersiwn Gymraeg o'r ymgynghoriad hwn. Credwn ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw benderfyniad ar y mater allweddol, boed i gadw'r sefyllfa fel y mae neu gyflwyno newid, yn arwain at ganlyniadau ieithyddol yn effeithio ar wasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru.

Dyletswydd Egwyddorion Amgylcheddol

Er 1 Tachwedd 2023, mae Deddf yr Amgylchedd 2021 wedi rhoi Gweinidogion y Goron o dan ddyletswydd gyfreithiol i roi 'sylw dyladwy' i'r datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol.

Mae'r pum egwyddor yn y datganiad polisi hwn, sydd wedi'u pennu yn adran 17(5) o Ddeddf 2021, yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol yn feincnodau llwyddiannus ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd. Wrth lunio polisi, a lle bo'n berthnasol, bydd angen i Weinidogion ystyried:

- egwyddor integreiddio
- egwyddor atal
- egwyddor cywiro yn y ffynhonnell
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu
- yr egwyddor ragofalus

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo eisoes i'r pum egwyddor hyn drwy offerynnau a phrosesau rhyngwladol.

Nid ydym wedi dynodi unrhyw effeithiau amgylcheddol yn codi o'r mater sy'n cael ei drafod yn yr ymgynghoriad hwn ond byddem yn falch, wrth gwrs, o gael unrhyw sylwadau am yr asesiad hwn.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018, sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

E03509196

978-1-5286-6131-7